EGWYDDORION Y BEIBL—A ALLAN NHW EIN HELPU NI I YMDOPI Â PHROBLEMAU HEDDIW?

PAM DEFNYDDIO EGWYDDORION Y BEIBL? (4 mun.)

Heddiw, mae digonedd o gyngor ar bob pwnc y gallwch chi ei ddychmygu (Col 2:8; *w09*-E 6/1 3-4)

Cyngor pwy y gallech chi ymddiried ynddo ar gyfer ymdopi â phroblemau heddiw?

Mae egwyddorion tragwyddol y Beibl yn llawer gwell nag unrhyw beth sydd ar gael yn y byd (Dia 19:20)

Gadewch inni ystyried sut y mae egwyddorion y Beibl yn gallu ein helpu ni i ddelio â phedair problem gyffredin

SUT I GADW HEDDWCH (5 mun.)

Mae llawer yn dioddef oherwydd ymddygiad difeddwl a hunanol pobl eraill (2Ti 3:1-3)

Mae rhai yn teimlo fel gwrthryfela neu ymateb yn yr un modd

Mae eraill yn mabwysiadu'r agwedd: "Peidiwch â gwneud i eraill yr hyn na ddymunwch iddyn nhw ei wneud i chi" (*w04*-E 6/1 32)

Nid yw agweddau o'r fath wedi creu perthnasau heddychlon

Yn ôl Iesu mae angen mwy na pheidio â gwneud drwg i bobl eraill; rhoddodd yr egwyddor ym Mathew 7:12 [Darllenwch]

Mae rhoi'r egwyddor hon ar waith yn gofyn inni drin pobl â pharch, tegwch, a gonestrwydd, a dangos diddordeb ynddyn nhw

Rhoddodd Iesu gyngor ardderchog ar sut i geisio heddwch (Mth 5:23-25)

Mae ceisio heddwch yn rhoi tangnefedd inni ac yn ein helpu ni i fwynhau perthynas hapus gyda phobl eraill (Rhu 12:18; *w09*-E 10/15 9 par. 7-9)

Y FFORDD I HAPUSRWYDD (5 mun.)

Mae llawer o bobl yn ceisio hapusrwydd drwy gael pethau materol, drwy ddod ymlaen yn y byd, neu drwy ffyrdd hunanol eraill (Eff 2:2, 3; *g*-E 4/06 6)

Nid yw'r pethau hyn yn sicrhau hapusrwydd (Lc 12:15)

Dysgodd Iesu i'w ddilynwyr fod gwir hapusrwydd yn dod trwy fod yn hael [Darllenwch Actau 20:35]

Y gwir yw bod y rhai sy'n rhoi o'r galon yn ffynnu (Dia 11:25)

Mae hyn yn cynnwys rhoi ein hamser a'n hegni (Dia 19:17)

Mae rhoi yn hael yn creu priodasau cryf a theuluoedd hapus (Php 2:3, 4)

Trwy roi o'n hunain, rydyn ni'n dod â chysur i bobl mewn profedigaeth, i'r rhai sâl, i'r henoed, ac i'r digalon (1The 5:14)

Gallwn ddarganfod y ffordd i hapusrwydd trwy fod yn hael, oherwydd "ag aberthau fel hyn y rhyngir bodd Duw" (Heb 13:16)

SUT I DDELIO GYDA PHROBLEMAU ECONOMAIDD (5 mun.)

Mae ysbryd y byd yn annog 'trachwant y llygaid,' chwant nad yw'n cael ei fodloni (1In 2:16; Dia 27:20)

Yn aml, mae llwyddiant yn cael ei fesur yn ôl eiddo materol, ond mae'r rhai sydd am fod yn gyfoethog yn niweidio eu hunain (1Ti 6:9, 10)

Mae'r Beibl yn cynnig cyngor doeth ynglŷn â phethau materol [Darllenwch 1 Timotheus 6:8]

Mae bodlonrwydd yn cynnwys peidio â gwario mwy na'ch incwm a chadw eich 'llygad yn syml' (Mth 6:22, *Y Beibl Cysegr-Lân;* Dia 22:7)

Mae gwrando ar y cyngor ysbrydoledig hwn yn ein helpu ni i osgoi dyledion mawr, sy'n dod â phryder neu ansicrwydd (*w03*-E 12/15 23 par. 17)

Mae bod yn fodlon yn ein helpu ni i ganolbwyntio ar y pethau pwysicach, sef, meithrin perthynas dda gyda Duw a mwynhau bywyd teuluol hapus a diogel (Php 1:10; 1Ti 6:17-19)

SUT I OSGOI PRYDERON (5 mun.)

Fe all ein teuluoedd, ein hiechyd, neu ein sefyllfa ariannol fod yn achos pryder inni

Gall llyfrau hunangymorth gynnig syniadau da, ond maen nhw'n gallu rhoi cyngor drwg sy'n arwain at siomedigaeth a phroblemau difrifol

Mae doethineb ymarferol i'w weld yn Philipiaid 4:6, 7 [Darllenwch]

Mae gweddi yn dod â 'thangnefedd Duw, sydd goruwch pob deall'

Gallwch fod yn sicr fod Jehofah yn gwybod am ein hanghenion ac y bydd yn darparu ar ein cyfer

Gallwn osgoi neu ddileu llawer o bryderon drwy weithio yn unol â'n gweddïau (Iag 1:5)

Yn y byd newydd sydd i ddod, bydd diwedd ar holl broblemau sy'n achosi pryderon (2Pe 3:11-13)

SUT Y GALLWN NI YMDOPI Â PHROBLEMAU YN LLWYDDIANNUS? (6 mun.)

Mae'r Beibl yn cynnwys cyngor ymarferol i'n helpu ni i ymdopi â'n problemau (Heb 5:14; *w05*-E 10/1 13; *w02*-E 2/15 6, blwch)

Bob tro mae egwyddorion y Beibl yn cael eu rhoi ar waith, maen nhw'n llwyddo

Mae rhoi egwyddorion y Beibl ar waith yn ein bywydau yn dod â hapusrwydd nawr, ac yn ein helpu ni i wneud penderfyniadau doeth ynglŷn â'r dyfodol (Sal 128:1, 2; Esei 48:17, 18)

Sylwch ar egwyddorion ymarferol y Beibl ynglŷn â:

Problemau iechyd (Dia 14:15, 30)

Problemau ariannol (Mth 6:31, 32)

Problemau priodasol (Col 3:14)

Casineb ethnig a hiliol (Act 10:34, 35)

Cwmni drwg (Dia 13:20)

Problemau gwaith (Sal 37:25)

Mae'n braf iawn gweld pobl newydd yn y gynulleidfa

Os hoffech chi wybod mwy am yr egwyddorion hyn a sut i'w rhoi ar waith yn eich bywyd chi, gofynnwch i un o Dystion Jehofah a byddan nhw'n hapus i wneud y trefniadau

Bydd dilyn egwyddorion y Beibl yn gwella eich bywyd nawr ac yn dod â bendithion fydd yn para am byth (Sal 19:7)

(Nid oes angen darllen pob adnod sydd wedi ei nodi)

© 2010 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania

Cedwir pob hawl